# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3 (2025-26)

## Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

| Adran a Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? |
|---|---|---|---|---|
| **Adran Addysg:**<br><br>**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar** | Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posibl i'w cyfnod mewn addysg. | • Newid Polisi Toiledu i ysgolion Gwynedd Medi 2025 a pharatoi teuluoedd at y newid drwy gydweithio yn draws adrannol a gydag Iechyd.<br><br>• Ymestyn y cynllun gofal plant 2 oed i fwy o ardaloedd erbyn Medi 2025 sef Tywyn, Harlech Llandderfel & Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd / Buan, Aberdaron/Botwnnog/ Tudweiliog, Cricieth, Waunfawr, Seiont 1 - Caernarfon Llanberis, Arllechwedd a Phorthmadog Gorllewinol gan ddarparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. | Ydy<br><br><br><br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>• Mae pecynnau toiledu wedi'u dosbarthu i ddarparwyr gofal plant yng Gwynedd, yn ogystal â rhieni.<br>• Crëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar toiledu, sydd ar gael ar amryw o lwyfannau fel You Tube a Spotify.<br>• Mae'r Cynllun Gofal Plant 2 oed wedi'i ymestyn i'r ardaloedd canlynol: Tywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd / Buan, Botwnnog / Tudweiliog, Cricieth, Seiont 1 – C'fon, Llanberis a Porthmadog Gorllewinol.<br>• Mae 12 darparwr gofal plant newydd wedi arwyddo cytundeb i gynnig y Cynllun.<br>• Mae 121 o blant wedi cofrestru ac yn derbyn eu hawliad am 12.5awr o ofal plant am ddim.<br>• Mae'r gwarchodwraig gyntaf yng Ngwynedd bellach wedi arwyddo cytundeb gyda'r Awdurdod i ddarparu gofal i blant 2 oed.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae arwyddion cynnar yn dangos ei bod yn debygol y bydd llai o blant yn dechrau yn y dosbarth meithrin heb fedru defnyddio'r toiled yn annibynnol. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ym mis Medi 2026 i adolygu'r sefyllfa, gan nodi dwy flynedd ers i'r newid polisi ddod i rym. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Cynllun Gofal Plant yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau costau byw.<br><br>Mae effaith gadarnhaol hefyd ar blant, drwy gael mynediad at ofal o ansawdd a gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad ochr yn ochr â'u cyfoedion.<br><br>Mae darparwyr gofal plant yn elwa o'r Cynllun drwy fuddsoddiad ariannol mewn adnoddau a chymorth proffesiynol gan Athrawes Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a'r tîm gofal plant ehangach. |
| **Adran Addysg:**<br><br>**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu** | Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Chricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd. | **Hirael**<br>Cychwyn y gwaith adeiladu ar y safle.<br><br>**Ein Harglwyddes**<br>Cwblhau'r gwaith adeiladu ac agor yr ysgol newydd yn Pasg 2026.<br><br>**Tryfan**<br>i) Llunio a chyflwyno achos busnes (Achos Busnes Amlinellol)<br>ii) Cytuno ar ddyluniad amlinellol<br><br>**Bontnewydd**<br>i) Cyflwyno'r achos busnes llawn (Achos Busnes Llawn)<br>ii) Cwblhau'r gwaith o adeiladu'r ysgol dros dro<br>iii) Dymchwel yr adeilad presennol | Nac ydy<br><br>Rhannol<br><br>Ydy<br>Ydy<br><br>Ydy<br>Ydy<br>Rhannol | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>**Hirael**<br>Gwaith dylunio wedi digwydd yn ystod 2025/26.<br><br>**Ein Harglwyddes**<br>Mae'r gwaith adeiladu yn symud ymlaen, a disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod tymor yr haf gyda'r ysgol yn agor dechrau tymor yr hydref 2026.<br><br>**Tryfan**<br>Yn ystod haf 2025, datblygwyd cynlluniau ar gyfer yr ysgol gan nodi'r angen i gynyddu'r cyllideb. Yn dilyn hynny, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo argymhelliad i gynyddu cyllideb y prosiect o £18m i £23.6m. Mae'r tîm dylunio yn parhau i weithio ar ddatblygu cynllun sy'n cyflawni gofynion sero net, gan baratoi ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn nhymor yr haf 2026.<br><br>**Bontnewydd**<br>Cafodd y gwaith o adeiladu'r ysgol dros dro ei gwblhau yn ystod tymor yr haf 2025, ac ers Medi 2025, mae'r ysgol a'r ganolfan gymunedol wedi gweithredu o'r adeilad dros dro. Cyflwynwyd yr achos busnes llawn ym mis Mawrth 2026, yn dilyn proses fanwl o beirianneg gwerth (Value Engineering). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>• Gwell cyfleusterau addysg – Mwy o blant yn elwa o ysgolion ag amgylcheddau dysgu modern sy'n gwella profiad addysgol dysgwyr Gwynedd.<br>• Cyfleoedd economaidd – Datblygiadau cyfalaf yn creu swyddi a buddion cymunedol ac o ganlyniad yn cryfhau'r economi leol.<br>• Adeiladau sero net – Prosiectau arfaethedig yn rhai cynaliadwy, fydd yn lleihau ôl-troed carbon ein hysgolion.<br>• Gwell defnydd o gyfleusterau – Mwy o blant, grwpiau a mudiadau cymunedol yn elwa yn sgil mynediad at gyfleusterau modern aml-ddefnydd fydd yn agored i'r gymuned ehangach. |
| **Adran Addysg:**<br><br>**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol** | Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, ond gan warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr mae ein plant yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.<br>Byddwn hefyd yn ymdrin gyda materion llesiant yn cynnwys heriau emosiynol a seicolegol ac yn cefnogi materion ehangach sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, cydraddoldeb, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi. | • Llunio a dosbarthu Awdit 'Y gost o fynychu yr ysgol' i pob ysgol werthuso eu trefniadau presennol.<br><br>• Dadansoddi canfyddiadau'r Awdit.<br><br>• Rhannu canfyddiadau gyda'r ysgolion ar ffurf cynllun gweithredu unigol i pob ysgol. | Ydy<br><br><br>Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>• Crëwyd ac anfonwyd Awdit "Y Gost o Fynychu'r Ysgol" i bob ysgol yng Ngwynedd.<br>• Dadansoddwyd yr holl ymatebion ac adnabuwyd prif feysydd costau a heriau.<br>• Rhoddwyd cynllun gweithredu unigol i bob ysgol oedd wedi ymateb, wedi'i seilio ar yr ymatebion, i'w drafod gyda'r llywodraethwyr.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>• Lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd drwy helpu ysgolion i leihau costau diangen a sicrhau blaen rybudd addas ar gyfer cais am arian.<br>• Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, waeth beth yw sefyllfa ariannol y teulu.<br>• Ysgolion yn ystyriol o heriau ariannol wrth gynllunio digwyddiadau a gofyn am gyfraniadau.<br>• Darpariaethau a chefnogaeth bwrpasol i lleihau costau yn cael eu cynllunio a'u darparu gan ysgolion. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran Addysg a PP YGC**<br><br>**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** | Byddwn yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer Ieuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc | • Ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol ar draws y Sir.<br><br>• Alinio strategaeth yr awdurdod lleol â chynlluniau pum mlynedd Llywodraeth Cymru.<br><br>• Adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc.<br><br>• Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r ysgolion uwchradd i sicrhau cynllunio, cyflwyno ac adolygu darpariaethau ieuenctid cydlynol o fewn cyd-destun ysgol, gan gyfrannu at les ac ymddygiad cadarnhaol pobl ifanc 11–18 oed. | Ydy<br><br>Ydy (parhau yn 2026/ 27)<br><br>Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol yn wythnosol ar draws Gwynedd, gyda 16 wedi'u lleoli yn Arfon, 10 ym Meirionnydd a 8 yn Nwyfor, gan sicrhau lledaeniad daearyddol eang a mynediad teg i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys 12 clwb a ariennir gan gynghorau lleol, 3 Chlwb Cyfeillgar mewn partneriaeth â Derwen, 18 o glybiau cymunedol symudol sy'n ymateb yn hyblyg i anghenion lleol, ac 1 clwb Niwro arbenigol. Yn ystod y flwyddyn 2025/26, agorwyd 5 clwb cymunedol newydd mewn ardaloedd blaenoriaeth, yn Nhrawsfynydd, Bala, Llandwrog, Tywyn a Mynytho.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyd-ariannu swydd Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd sydd yn cynnal 4 aelwyd ar draws y sir ynghyd a nifer o glybiau ar ôl ysgol.<br><br>Mae fforymau pobl ifanc wedi'u sefydlu ar draws y sir, gyda chynlluniau i lansio fforwm llais pobl ifanc llawn y Cyngor. Bydd hyn yn galluogi mewnbwn uniongyrchol gan bobl ifanc i arweinyddiaeth y Cyngor, gyda Chydlynydd Ymgysylltu a Chyfathrebu newydd yn cefnogi cyfranogiad, yn enwedig gan y rhai anoddaf i'w cyrraedd.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu cynlluniau ar y cyd ag ysgolion Uwchradd i sicrhau darpariaeth glir, bwrpasol ac effeithiol.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae'r ddarpariaeth o glybiau a phrosiectau ar draws y sir yn sicrhau mynediad teg at weithgareddau diogel a chefnogol, gan helpu i wella lles, hyder a sgiliau cymdeithasol pobl ifanc, yn ogystal â lleihau teimladau o unigrwydd mewn cymunedau gwledig.<br><br>Drwy ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd blaenoriaeth a chynnig modelau hyblyg fel clybiau symudol a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | darpariaeth arbenigol, mae mwy o bobl ifanc yn gallu cael mynediad at wasanaethau perthnasol sy'n diwallu eu hanghenion.<br><br>Mae'r gwaith partneriaeth gyda sefydliadau fel yr Urdd ac ysgolion yn cryfhau'r gefnogaeth o amgylch pobl ifanc, gan sicrhau dull mwy cydlynol o weithio a gwell canlyniadau addysgol a chymdeithasol.<br><br>Mae datblygu fforymau pobl ifanc a chynlluniau i gryfhau eu llais yn golygu bod pobl ifanc Gwynedd yn cael mwy o ddylanwad ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a dinasyddiaeth weithgar.<br><br>Yn y tymor hir, bydd y gwaith o ddatblygu Strategaeth pum mlynedd yn helpu i sicrhau gwasanaeth mwy cynaliadwy, wedi'i gynllunio o amgylch anghenion pobl ifanc y sir. |
| **Adran Addysg**<br><br>**Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd** | Llunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd gan ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y blaenoriaethau er sicrhau cyfundrefn addysg wydn, ynghyd â darpariaeth a phrofiadau addysgol o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc y sir | • Ymgysylltu ar y Strategaeth ddrafft.<br><br>• Cyflwyno'r Strategaeth Addysg gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.<br><br>• Cyflwyno'r Strategaeth Addysg terfynol gerbron y Cabinet gyda'r Strategaeth yn dod yn weithredol. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>Mae'r Strategaeth Ysgolion yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer addysg yng Ngwynedd dros y 10 mlynedd nesaf. Fe'i datblygwyd drwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys penaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd a'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc, yn ogystal ag arolwg electronig a oedd ar agor am wyth wythnos. Sicrhaodd hyn fod safbwyntiau proffesiynol a lleisiau dysgwyr yn llywio'r Strategaeth.<br><br>Cyflwynwyd y Strategaeth ddrafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11/12/25.<br><br>Cyflwynwyd y Strategaeth i'r Cabinet ar 10/02/26<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae'r Strategaeth Ysgolion newydd yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor ar bobl Gwynedd drwy osod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfeiriad clir ar gyfer datblygu addysg dros y degawd nesaf.<br><br>I ddysgwyr, mae'n golygu darpariaeth addysg fwy cyson ac o ansawdd uchel, wedi'i llywio gan eu hanghenion. Trwy gynnwys llais pobl ifanc yn y broses, mae'r Strategaeth yn fwy perthnasol ac yn adlewyrchu profiadau go iawn yn yr ysgolion.<br><br>Nod y Strategaeth yw adeiladu system addysg gynhwysol, deg ac o ansawdd uchel. Bydd yn cefnogi gwell safonau addysg drwy well trefniadaeth ysgolion mewn ymateb i newidiadau demograffig, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion a datblygiad y gweithlu. Disgwylir i hyn arwain at brofiadau dysgu mwy cyson a gwell cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyrraedd eu potensial.<br><br>I ysgolion a staff, mae'n darparu eglurder o ran blaenoriaethau a disgwyliadau, gan gefnogi cynllunio gwell a chydweithio ar draws y sir.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi rhwydwaith ysgolion mwy cynaliadwy i gryfhau ysgolion a chymunedau, ac yn hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gan gyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.<br><br>Mae'r broses eang o ymgysylltu wedi cryfhau ymddiriedaeth a pherchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid, gan osod sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau addysgol mwy effeithiol yng Ngwynedd yn y blynyddoedd i ddod. |
| **Adran Addysg**<br><br>**Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd.** | Mae angen adolygu a gwella'r ystod darpariaethau cynhwysiad sydd ar gael i ddysgwyr gydag anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol. Mae anghenion y dysgwyr hyn wedi cynyddu, | • Ymgynghori, ailstrwythuro a phenodi staff<br><br>• Cofrestru'r ddarpariaeth fel Uned Cyfeirio Dysgwyr Portffolio<br><br>• Ffurfio Pwyllgor Rheoli ar gyfer UCD | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>Mae'r gwaith o ailstrwythuro a phenodi staff wedi'i gwblhau, ac mae'r ddarpariaeth bellach wedi'i chofrestru'n swyddogol. Mae Pwyllgor Rheoli hefyd wedi'i sefydlu, gyda'i gyfarfod cyntaf wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2025. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gydag effaith y pandemig i weld yn glir ac yn hirdymor. | • Anwytho staff a hyfforddi<br><br>• Lansio Strategaeth Cynhwysiad | Ydy<br><br>Ydy | Cynhaliwyd sesiynau anwytho i staff, ynghyd â hyfforddiant ar systemau a strategaethau perthnasol er mwyn sicrhau parodrwydd llawn.<br><br>Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion 'Camu I'r Copa', sydd wedi'i lleoli ar safle cyn Ysgol Felinwnda yn Llanwnda, bellach yn weithredol fel darpariaeth gofrestredig ac wedi dechrau cefnogi dysgwyr. Mae'r ganolfan yn adnodd pwysig i bobl ifanc yr ardal sydd angen cymorth addysgol wedi'i deilwra, gan gynnig amgylchedd diogel a chefnogol sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.<br><br>Yn ogystal, cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiad yn y Grwpiau Strategol gyda'r penaethiaid ym mis Hydref 2025.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Fel Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), mae Canolfan Felinwnda - sy'n cael ei hadnabod fel *Camu i'r Copa* - yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd, o bosibl, yn cael trafferth mewn addysg brif ffrwd. Mae'r Ganolfan yn cynnig dosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol iawn, a chymorth emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol cynhwysfawr.<br><br>Ein cenhadaeth yw adfer hyder, meithrin gwydnwch, a rhoi'r offer sydd eu hangen ar ddisgyblion i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd lle bo'n bosibl, neu i wneud pontio cadarnhaol i addysg bellach neu lwybrau galwedigaethol. Drwy gynnig cwricwlwm eang,<br>cymorth therapiwtig, a thîm ymroddedig o staff, ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial ac yn gwella ei lesiant ochr yn ochr â'i gyrhaeddiad academaidd.<br><br>Wedi'i lleoli yng nghanol y gymuned yn Felinwnda, mae'r ganolfan hefyd yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynhwysiant. Drwy gynnig darpariaeth leol, rydyn ni'n lleihau rhwystrau mynediad ac yn sicrhau nad oes rhaid i bobl ifanc deithio'n bell i gael cymorth arbenigol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Cyngor Gwynedd ar gyfer moderneiddio addysg. |

## <u>Gwynedd Gymraeg:</u> Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

| **Adran a Prosiect** | **Trosolwg** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):** | **Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau** | **Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?** |
|---|---|---|---|---|
| **Adran Addysg**<br><br>**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant** | Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle | • Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Paratoi adnoddau a chyflwyniadau newydd i rieni yn amlinellu manteision dwyieithrwydd.<br><br>• Sefydlu Bwrdd Prosiect CSGA Deilliant 5 i sicrhau cydweithio a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol e.e Yr Urdd, CFfI, Menter Iaith Gwynedd, gyda'r bwriad o fapio'r gweithgareddau a gynigir gan bartneriaethau o fewn y Sir a medru eu cyflwyno i rieni a theuluoedd.<br><br>• Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen o ran egwyddorion addysg drochi. Cynnal hyfforddiant rheolaidd i staff y Cyfnod Sylfaen i rannu egwyddorion trochi llwyddiannus. Sicrhau bod ganddynt fynediad at adnoddau trochi parod, safonol ar blatfform digidol hylaw. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>Mae'r wefan newydd wedi ei lansio, gyda blogiau wythnosol (gan gynnwys rhai hanesyddol) yn cael eu cynnwys, ac mae adnoddau wedi eu darparu i ysgolion drwy HWB, ynghyd ag adnoddau ychwanegol ar gais.<br><br>Mae Is-bwyllgor Ieuenctid wedi ei sefydlu a chyfarfodydd wedi eu cynnal, ond nid yw wedi diwallu'r angen i rannu gwybodaeth am Ddeilliant 5; bwriedir mynd i'r afael â hyn drwy Fwrdd Rhaglen y Gymraeg o fis Ebrill 2026.<br><br>Mae hyfforddiant i ddarpar athrawon ym Mhrifysgol Bangor wedi digwydd fis Hydref 2025, a rhai wedi manteisio ar wahoddiad i'r canolfannau i arsylwi gwaith yr athrawon trochi.<br><br>Mae staff trochi wedi cyfarfod staff o Awdurdodau Môn, Sir Ddinbych, Conwy, Sir Fflint a Wrecsam i rannu adnoddau.<br><br>Mae aelod o staff y Gyfundrefn yn cyd-weithio gyda dwy ysgol uwchradd ar gynllun fydd yn diwallu'r angen am adnoddau trochi ar gyfer dysgwyr hŷn. Mae'r adnodd wedi ei drafod gydag Agored Cymru. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. | | | **Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae'r uchod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Gwynedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, drwy:<br><br>• wella mynediad at wybodaeth, adnoddau a deunyddiau dysgu Cymraeg a chryfhau'r ddarpariaeth trochi, gan alluogi dysgwyr – gan gynnwys rhai hŷn – i feithrin hyder a gallu yn y Gymraeg.<br>• datblygu sgiliau ac arbenigedd staff addysg.<br>• manteisio ar gyfleoedd cydweithio rhanbarthol i gryfhau'r darpariaeth er budd dysgwyr Gwynedd.<br>• cynnwys llais pobl ifanc gyda'r bwriad o gryfhau eu rôl ymhellach er mwyn gwella'r broses o rannu gwybodaeth a'u dylanwad |
| **Adran Addysg**<br><br>**Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg** | Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg, yn cyfrannu at Cymraeg 2050, ac yn adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar yn y maes gan Lywodraeth Cymru | 1. Polisi Iaith:<br>• Ymgysylltu ar y Polisi Iaith ddrafft.<br><br>• Cyflwyno'r Polisi Iaith enghreifftiol gerbron y Cabinet. | Ydy<br><br>Ydy | **Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>Cyflwynwyd drafft o Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd i'r Cabinet ar 16/12/25, a chytunwyd i'w ddefnyddio ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Ionawr a 25 Chwefror 2026 er mwyn casglu ymatebion i lywio fersiwn ddiwygiedig o'r polisi.<br><br>Bwriedir adrodd yn ôl i'r Cabinet ym Mehefin 2026 i benderfynu a ddylid mabwysiadu'r polisi.<br><br>Os caiff ei gymeradwyo, bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ymgynghori â'u cymunedau cyn ei weithredu o fis Medi 2026.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae'r camau uchod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Gwynedd drwy roi cyfle i rieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach gyfrannu at lunio Polisi Iaith Addysg. Mae'r broses o ymgynghori ac adrodd yn ôl i'r Cabinet yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. Cyfundrefn Drochi:<br><br>• Cwblhau'r Adroddiad ar y Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi gan Brifysgol Bangor (Comisiynwyd Tîm Ymchwil Prifysgol Bangor i werthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd yn 2024/25).<br><br>• Cyflwyno'r Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16 Hydref 2025.<br><br>• Ymateb i ganfyddiadau Adroddiad Prifysgol Bangor – Gwerthuso Cyfundrefn Drochi Gwynedd drwy adolygu trefniadau ymarferol y cwrs 10 wythnos a grymuso'r ddarpariaeth ôl ofal.<br><br>• Ymateb i ganfyddiadau adroddiad Estyn Mawrth 2025 – parhau i ddarparu adnoddau hygyrch ôl ofal ar lwyfan digidol a grymuso prosesau hunanarfarnu'r Gyfundrefn. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | ffordd agored ac atebol. Bwriad y Polisi yw cefnogi datblygiad y Gymraeg mewn addysg. Drwy ddatblygu a gweithredu polisi iaith clir, disgwylir cryfhau darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr. Bwriad y polisi yw sicrhau cysondeb ar draws ysgolion a chynorthwyo sicrhau dull mwy cyson o weithredu ar draws ysgolion Gwynedd.<br><br>**Beth sydd wedi'i gyflawni:**<br><br>• Cyflwynwyd adroddiad gan Prifysgol Bangor ar werthusiad o'r Gyfundrefn Drochi i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16/10/25.<br>• Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.<br>• Ar hyn o bryd, nid oes modd newid y strwythur presennol heb fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Er bod cyfathrebu rhwng yr Aelod Cabinet Addysg a Llywodraeth Cymru wedi digwydd, nid oes ymateb wedi dod ynghylch cyllid ychwanegol.<br>• Serch hynny, mae nifer o welliannau ac addasiadau eisoes yn cael eu gwneud o fewn y strwythur presennol, yn unol â sylwadau'r Pwyllgor Craffu. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Gyfundrefn a'r rhaglen waith cysylltiedig.<br><br>**Effaith ar bobl Gwynedd:**<br><br>Mae gwelliannau ac addasiadau parhaus i'r Gyfundrefn Drochi yn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i dderbyn cefnogaeth effeithiol i ddatblygu eu Cymraeg. Mae ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad a barn rhanddeiliaid hefyd yn helpu i fireinio'r ddarpariaeth er budd plant a phobl ifanc.<br><br>Er nad oes newidiadau arwyddocaol yn bosib, mae'r gwaith parhaus yn cyfrannu at gynnal a gwella safonau iaith. |